# Y Gronfa Cadernid Economaidd
# Nodiadau cyfarwyddyd

## Y GRONFA CADERNID  ECONOMAIDD - DIBEN Y GRANT

Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pecyn pellach o gymorth busnes ar gael drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd (ERF). Bydd y Gronfa yn darparu cymorth ar ffurf grantiau arian parod i fusnesau, mentrau cymdeithasol ac elusennau a busnesau cadwyn gyflenwi cysylltiedig sydd naill ai wedi profi / a fydd yn parhau i gael effaith negyddol sylweddol oherwydd cyfyngiadau parhaus Covid-19.

Bydd y grantiau'n helpu i dalu costau gweithredu (ac eithrio cyflogau staff) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai 2021 a 30 Mehefin 2021, a effeithiwyd yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau oedd ar waith o ddechrau'r cyfnod.

Yn benodol, bydd y Gronfa yn cefnogi busnesau sydd naill ai:

a) Wedi gorfod aros ar gau oherwydd y cyfyngiadau parhaus rhwng 1 Mai 2021 a 30 Mehefin 2021

b) Wedi methu agor dan do rhwng 1 Mai 2021 ac 17 Mai 2021

c) Yn lleoliad sy'n darparu'n unswydd ar gyfer priodasau a digwyddiadau sydd â chyfyngiad rheoleiddiol o 30 o westeion (ond sy'n gallu dal llawer mwy dan amgylchiadau arferol)

d) Yn fusnes cadwyn gyflenwi sy'n cynhyrchu 60% neu fwy o'i refeniw gwerthu gan fusnesau sy'n perthyn i gategorïau a), b) a/neu c)

AC (mae hyn yn berthnasol i bob un o'r uchod):

Wedi profi effaith negyddol sylweddol drwy leihad o 60% neu fwy mewn trosiant ym mis Mai a Mehefin 2021 o'i gymharu â mis Mai a mis Mehefin 2019 a achoswyd yn uniongyrchol gan gyfyngiadau parhaus COVID-19.

**Bydd y grant yn agored i geisiadau o'r wythnos sy'n dechrau ar 31 Mai 2021 a bydd yn cau am 5pm ar 30 Mehefin 2021.**

Gweinyddir y Gronfa mewn dwy ran; bydd cymorth i fusnesau â throsiant yn fwy na £85,000 yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru; bydd cymorth i fusnesau â throsiant o lai na £85,000 yn cael ei weinyddu gan awdurdodau lleol. Dylai lefelau trosiant fod ar gyfer blwyddyn fasnachu arferol neu'n amcangyfrif os dechreuodd y busnes ar ôl mis Mawrth 2020.

Mae'r Canllawiau hyn yn ymwneud â'r cymorth i fusnesau sydd â throsiant o lai na £85,000 a weinyddir gan Awdurdodau Lleol.

## BUSNES CYMRU

Mae Busnes Cymru yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau newydd, microfusnesau a busnesau bach a chanolig yng Nghymru.  Gall y gwasanaeth eich helpu i ddeall eich anghenion a darparu pecynnau cymorth wedi eu teilwra, gan gynnwys mynediad at offerynnau ar-lein, gweithdai, cynghorwyr arbenigol a mentoriaid. Yn ogystal â gweithio gyda

chi i lunio diagnostig busnes a chynllun gweithredu, gall ein cynghorwyr hefyd ddarparu cyngor ariannol wedi'i dargedu a chael mynediad at gymorth arall a allai fod o fudd i chi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.busnescymru.llyw.cymru.

## Y GRONFA CADERNID ECONOMAIDD – PWY SY'N GALLU GWNEUD CAIS?

**Gall** busnesau sy'n bodloni'r meini prawf canlynol fod yn gymwys am grant:

- Roedd y busnes yn masnachu cyn 4 Rhagfyr 2020
- Rhaid bod y busnes yn gweithredu yng Nghymru
- Rhaid i fusnesau fod ag o leiaf **un** o'r canlynol
  - Cyfeirnod Unigryw Trethdalwr (UTR) gan CThEM
  - Rhif Cofrestru TAW neu Dystysgrif Eithrio o TAW (os yw'n berthnasol)
  - Rhif Cofrestru'r Cwmni (os yw'n berthnasol)
  - Rhif trwydded cerbyd hacni neu rif trwydded minicab preifat (os yw'n berthnasol)
- Rhaid i fusnesau fodloni un o'r amodau canlynol :
  - Mae'r busnes naill ai wedi neu yn mynd i gael ei orfodi i aros ar gau oherwydd cyfyngiadau parhaus rhwng 1 Mai 2021 a 30 Mehefin 2021 ac wedi profi gostyngiad o >60% mewn trosiant yn y cyfnod hwn, **o ganlyniad uniongyrchol** i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yng Nghymru ac a estynnwyd wedyn, neu
  - Nid yw'r busnes wedi gallu agor dan do rhwng 1 Mai 2021 a 17 Mai 2021 ac mae wedi gweld gostyngiad mewn trosiant o >60% yn y cyfnod hwn, **o ganlyniad uniongyrchol** i'r cyfyngiadau a gyflwynwyd yng Nghymru ac a estynnwyd wedyn, neu
  - Mae'r busnes yn lleoliad unswydd ar gyfer priodasau neu ddigwyddiadau sy'n dal mwy na 30 o westeion. neu
  - Mae'n fusnes cadwyn gyflenwi sy'n cynhyrchu 60% neu fwy o'i refeniw gwerthu gan fusnesau sy'n perthyn i'r 3 chategori uchod ac mae wedi gweld gostyngiad o >60% mewn trosiant yn y cyfnod
- Cwmni cyfyngedig â throsiant o rhwng £10,000 ac £85,000
- Unig fasnachwyr / partneriaethau â throsiant sy'n llai na £85,000
- Rhaid mai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm (>50%)
- Rhaid i fusnesau sy'n derbyn cymorth geisio cadw eu cyflogeion am 12 mis
- Dim ond un cais fesul busnes (os oes sawl safle dan 1 busnes, yna dylid eu cyfuno'n un cais)
- Dylai busnesau fod wedi bod yn masnachu hyd at 4 Rhagfyr pan ddaeth y cyfyngiadau newydd i rym yng Nghymru - efallai y bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos hyn
- Ni all cyfanswm grantiau cymorth Covid-19[1] (gan gynnwys unrhyw ddyfarniad pellach drwy'r gronfa ddewisol hon) fod yn fwy nag 80% o drosiant ymgeisydd am flwyddyn fasnachu nodweddiadol.

## Y GRONFA CADERNID ECONOMAIDD - FAINT ALLWCH CHI WNEUD CAIS AMDANO?

[1] Gallai grantiau cymorth Covid-19 gynnwys Grantiau Ardrethi Annomestig, grantiau'r Gronfa Ddewisol leol, y Gronfa Cadernid Economaidd (gwahanol gylchoedd) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS).

Mae grant ar gael i gynorthwyo busnesau sy'n seiliedig ar nifer y staff Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE) a gyflogir ganddynt o 1 Mai 2021:

| | Symiau grant sefydlog: Busnesau sydd ar gau'n rhannol ac mewn cyfnod pontio neu fusnesau cadwyn gyflenwi | Lleoliadau priodas a digwyddiadau sy'n dal mwy na 30 o westeion (ddim yn gynnwys ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol) | Symiau grant sefydlog: Busnesau sydd wedi gorfod cau gydol Mai a Mehefin 2021 |
|---|---|---|---|
| 1-3 FTE* | £2,500 | £3,500 | £5,000 |
| 4-9 FTE | £5,000 | £7,000 | £10,000 |

**Swydd cyfwerth ag amser llawn** (FTE) – Dyma nifer y swyddi llawn amser yn eich sefydliad. Mae swydd amser llawn yn un 30 awr neu fwy yr wythnos; mae swydd ran-amser yn un 15 awr yr wythnos o leiaf; mae dwy swydd ran-amser yn cyfrif fel un swydd gyfwerth ag amser llawn. Nid ydym yn derbyn contractau dim oriau fel swyddi parhaol cymwys.

***Gall y ffigur FTE gynnwys y perchnogion a all fod yn tynnu arian etc, fodd bynnag, rhaid i unrhyw gyflogeion gael eu talu drwy TWE.**

I gyfrifo cyfanswm y swyddi FTE, rhannwch nifer y cyflogeion rhan-amser â 2 ac adio at nifer y gweithwyr llawn amser. Os yw'r swydd yn llai na 15 awr yr wythnos dylech gyfuno swyddi lluosog i wneud 30 fel un FTE. Dylid trin swyddi tymhorol fel staff gydol y flwyddyn cyn belled â'u bod yn cael eu cyflogi'n flynyddol.

**Enghraifft**:

4 gweithiwr rhan-amser = 2 wedi'u hadio at 1 gweithiwr amser llawn yn gwneud 3 gweithiwr FTE.

**Nid ydych yn gymwys** i gael y grant hwn:

- Os yw’r busnes yn cynhyrchu llai na 50% o'ch incwm os ydych chi'n unig fasnachwr neu’n bartneriaeth. Rhaid mai'r busnes yw eich prif ffynhonnell incwm.
- Os nad yw eich trosiant wedi gostwng o leiaf 60% o'i gymharu â'r cyfnod Mai / Mehefin yn 2019 neu gyfnod masnachu cyfatebol os sefydlwyd y busnes ar ôl y dyddiad hwnnw.
- Os ydych chi'n gymwys am gymorth gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol - Cymorth i Weithwyr Llawrydd (a lansiwyd ar 17 Mai 2021).
- **Os ydych chi wedi derbyn cyllid tuag at gostau ar gyfer yr un cyfnod o gronfeydd fel "Cronfa Cymru Egnïol" neu'r "Gronfa Cadernid Cymunedau**”.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol, a’r Awdurdod Lleol fydd â’r disgresiwn llwyr i dalu’r grant – yn unol â’r meini prawf a amlinellir yn y canllawiau hyn.

## Y GRONFA CADERNID ECONOMAIDD – SUT I WNEUD CAIS

Gall busnesau wneud cais am y grant drwy fynd i wefan eu Hawdurdod Lleol. Os ydych chi'n gymwys, gallwch agor ffurflen gais ar-lein, llenwi pob maes gofynnol a chyflwyno'ch cais. Mae pob maes yn orfodol - bydd methu â'u cwblhau **yn golygu y bydd** eich cais yn cael ei wrthod.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddisgresiwn llwyr i bennu hyd a thelerau'r gronfa.

## Y GRONFA CADERNID ECONOMAIDD – CANLLAWIAU CWBLHAU'R FFURFLEN

**ADRAN 1 – Eich manylion personol**
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth amdanoch chi, yr ymgeisydd / perchennog y busnes.

**Adran 2 – Gwybodaeth am eich busnes**
Mae'r adran hon yn gofyn am wybodaeth am eich busnes. Gwnewch yn siŵr bod yr holl fanylion yn gywir ac yn gyflawn. **Ni** fydd ffurflenni sy'n cynnwys data anghyflawn neu anghywir yn cael eu prosesu.

**Ni** fydd busnesau'n gymwys i dderbyn y grant os yw un o'r categorïau canlynol yn berthnasol:

- Gorfodwyd i gau ar ôl torri rheolau cadw pellter cymdeithasol. Fodd bynnag, os cyflwynwyd gwelliannau a bod y busnes wedi ailagor yna mae'n bosibl y gall fod yn gymwys i gael y grant (yn amodol ar fodloni'r meini prawf cymhwysedd)
- Busnesau a ddewisodd gau ond nad yw'n ofynnol iddynt wneud hynny
- Naill ai wedi'i ddiddymu neu yn y broses o gael ei ddileu
- Wedi croesi'r trothwy cymhorthdal
- Os nad y busnes rydych chi'n gwneud cais ar ei ran yw eich prif ffynhonnell incwm

**Adran 3 - Effaith y cyfyngiadau symud ar eich busnes**
Cadarnhewch neu fel arall os yw'r datganiad ar y ffurflen gais yn berthnasol i'ch busnes. **Efallai** y bydd awdurdod lleol yn gofyn am ragor o wybodaeth/dogfennau i ddangos tystiolaeth o'r gostyngiad amcangyfrifedig hwn mewn trosiant. Hefyd yn yr adran hon, soniwch sut mae/fydd y cyfyngiadau diweddaraf a gyflwynwyd yn ystod mis Rhagfyr yn effeithio'n **uniongyrchol ar** eich busnes yn y cyfnod rhwng 1 Mai 2021 a 31 Mehefin 2021.

**Adran 4 – Manylion Banc**
Rhowch fanylion eich cyfrif banc busnes gan y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud y taliad grant i chi – gwnewch yn siŵr bod y manylion hyn yn gywir.
Gallai'r awdurdod lleol ofyn am eich cyfriflenni banc diweddaraf a gwybodaeth bellach i gadarnhau eich manylion banc ac i weld tystiolaeth o'r gweithgarwch masnachu.

**Adran 5 – Rheoli Cymorthdaliadau**

Os dyfernir grant 'Symiau bach o gymorth ariannol' i chi, rhaid i chi sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio yn gydnaws â'r cytundebau perthnasol a geir yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd, Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE, unrhyw Gytundeb Masnach Rydd sy'n cynnwys y DU, Protocol Gogledd Iwerddon ac unrhyw ddeddfwriaeth ddomestig.

Fel rhan o'ch cais, rhaid i chi ddatgan a ydych wedi derbyn unrhyw gymorth de minimis gan yr UE neu gymhorthdal 'Symiau bach o gymorth ariannol' (fel y'i diffinnir yn Erthygl 364 paragraff 4 o Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU-UE) yn ystod y 3 blynedd ariannol flaenorol (h.y. y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol) ynghyd â'r swm a dderbyniwyd a manylion y corff dyfarnu.

Gallai enghreifftiau gynnwys y Gronfa Cadernid Economaidd, y Grant Cychwyn Busnes, Grantiau Ardrethi Annomestig ond nid y Cynllun Cadw Swyddi na'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (os nad ydych chi'n siŵr, rhowch y cymorth ar y rhestr).

**Adran 6 – Datganiadau**

Darllenwch y datganiadau a thiciwch y blychau i gadarnhau eich bod yn eu deall ac yn eu derbyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod wedi darllen a deall y ddogfen ganllawiau hon.

## Y GRONFA CADERNID ECONOMAIDD - BETH SY'N DIGWYDD AR ÔL I'R CAIS GAEL EI DDERBYN?

Byddwn yn cydnabod derbyn eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith.

Gwneir penderfyniadau ynghylch ceisiadau ar sail y wybodaeth a roddir yn y ffurflen gais, y dystiolaeth gysylltiedig a gwybodaeth o wiriadau a gynhelir ar ffynonellau data busnes arall. Os rhoddir data anghyflawn neu anghywir, neu os yw'r dystiolaeth a ddarperir yn annigonol, **ni** fyddwn yn prosesu'r ffurflen a gwrthodir y cais.

Ein nod yw prosesu ceisiadau grant o fewn 30 diwrnod ar ôl derbyn yr holl dystiolaeth/wybodaeth ategol.

Bydd 100% o'r grant yn cael ei dalu ymlaen llaw.

**Os nad yw eich cais yn llwyddiannus,** byddwch yn derbyn e-bost yn amlinellu'r rheswm/rhesymau dros wrthod eich cais. Nid oes proses apelio.

## Y GRONFA CADERNID ECONOMAIDD– AD-DALU GRANT

Cofiwch y gallai'r Awdurdod Lleol ofyn i chi ad-dalu'r grant yn llawn neu'n rhannol os daw tystiolaeth i'r amlwg i ddangos nad oedd yr ymgeisydd yn gymwys ar gyfer y Gronfa Cadernid Economaidd.